

**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A  
CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN YR  
YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE  
COLWYN, NOS FAWRTH, 24<sup>AIN</sup> TACHWEDD 2015 AM 6.00 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd N. Bastow (Cadeirydd)  
Cynghorwyr W Bagnall, Mrs G. Baker, Mrs L. Edwards, R.  
Foreman, Mrs L. Griffiths, J. Pearson (Warden Coed), C. Wood

**SWYDDOG:** Mrs C J Earley, Clerc y Dref

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mr Bleddyn Evans, Mr Andrew Kirkham,  
Cynghorwyr Dilwyn Roberts, Mike Priestley a Brian  
Cossey, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**234/15 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, penodwyd Cynghorydd Lindsay Griffiths i fod yn Gadeirydd Dros Dro i agor y cyfarfod. Croesawyd y Cynghorydd Glenys Baker, a etholwyd yn ddiweddar i fod yn Gynghorydd Tref, i'w chyfarfod cyntaf gan y Cadeirydd. Croesawodd hefyd y siaradwyr gwadd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC).

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr Mrs M. Jones a C. Perry.

**235/15 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**236/15 Ymwelwyr:**

Croesawyd Mr Bleddyn Evans a'r Cynghorydd Dilwyn Roberts, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i'r cyfarfod gan y Cadeirydd er mwyn iddynt annerch y Pwyllgor am y Strategaeth Swyddfeydd (SS).

- Cyrhaeddodd y Cynghorydd N. Bastow (Cadeirydd) yn ystod y cyflwyniad a chymerodd trosodd y Gadair oddi wrth y Cadeirydd dros Dro

Diolchodd Mr Kirkham, Pennaeth Cyllid, i'r Aelodau am y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor Tref am yr SS. Dymuniad Tîm y Prosiect oedd rhoi manylion am yr hyn a wnaed hyd yn hyn i'r Cyngor Tref cyn cyhoeddi'r wybodaeth i'r cyhoedd ac i'r wasg, er bydd yn rhaid ymatal rhag cyfleu peth wybodaeth oherwydd ei fod yn fasnachol sensitif.

Rhoddodd Bleddyn Evans cyflwyniad PowerPoint i'r Aelodau gan ddangos y cynnydd a fu ers y cyflwyniad diwethaf ym Mawrth 2015, pan gafodd manteision allweddol y prosiect eu cyflwyno. Atgoffwyd yr Aelodau o'r buddiannau hyn, oedd yn cynnwys dod ag un o fuddsoddwyr preifat mwyaf i ganol y dref a rhoi strategaeth gynaliadwy i ymadael a safle'r Canolfan Dinesig. Penodwyd Muse, sef cwmni dewisol y Cyngor i wneud hyn, ym Medi 2015. Muse oedd Datblygwr y Flwyddyn yn 2014 a'r cwmni fydd yn gyfrifol am gyflwyno'r adeilad newydd ar amser ac o fewn y gyllideb. Bydd

CBSC yn cymryd prydles o'r adeilad am gyfnod o 40 mlynedd gan M&G, sef y partner a fydd yn gyfrifol am gyllido'r prosiect. Pan ddaw'r cyfnod o 40 mlynedd i ben, bydd yr adeilad yn dychwelyd i berchnogaeth CBSC.

Fel cam cyntaf y prosiect, bydd y prif waith o adeiladu yn cael ei is-gontractio i Bowmer & Kirkland ac yna bydd prosiect yn rhoi adeilad BREEAM 'rhagorol' (tra effeithlon) gyda chyfluniad hyblyg ar gyfer 450 o ddesgiau a chyfanswm staff o 750 (94,381 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr). Ar y llawr isaf fe leolir siop un cam a bydd y maes parcio aml-lawr yn y cefn yn rhoi 353 o lefydd parcio, a'r bwriad yw i hwn fod ar gael i'r cyhoedd ar benwythnosau. Bydd hyn yn golygu colli oddeutu 100 o lefydd parcio yn ystod yr wythnos (o faes parcio Ffordd Lansdowne), ond bydd cynnydd o 253 o lefydd i barcio ar benwythnosau. I helpu i liniaru'r golled hwn a'r golled o barcio ar benwythnosau / nosweithiau yn y Ganolfan Ddinesig ar gyfer digwyddiadau ayb bydd maes parcio ychwanegol gydag arwyneb yn cael ei leoli ym Mharc Eirias (i hyd at 180/185 o gerbydau), rhwng y parc sglefrio a'r maes parcio Rygbi. Fe adleolir y meysydd chwarae anffurfiol i lefydd eraill yn y Parc.

Ar hyn o bryd mae yna ddau opsiwn ar gyfer cam dau o'r prosiect, a fydd yn golygu rhyddhau safle'r Ganolfan Ddinesig (unwaith bydd y staff wedi cael eu symud i'r adeilad newydd). Bydd hyn yn ddibynnol ar y gallu i gyflwyno opsiwn dewisol (a):

- a. Paratoi gwesty yn y Ganolfan Ddinesig mewn cydweithrediad a Chartrefi Cymru gan ddefnyddio model menter gymdeithasol. Mae cefnogaeth gref i hwn gan Weinidogion Llywodraeth Cymru, ond bydd angen cael cyllid allanol ychwanegol i wneud hyn yn ddichonadwy.
- b. Os na ellir cael cyllid allanol, yna fe ystyrir dewis arall o baratoi 31 o fflatiau.

Bydd hyn yn cyd-fynd â datblygiad o 18-24 o gartrefi ar safle presennol maes parcio a rhandy Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ni fydd tir Glan y Don, na'r hyn a elwir yn 'teletubby hill' yn gynwysedig efo hyn ac fe'u cedwir i fod yn rhan o Barc Eirias.

Yr amserlen bresennol ar gyfer hyn yw cwblhau cam un erbyn Mai / Mehefin 2018 a chwblhau cam dau erbyn Mai / Mehefin 2019.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd sesiwn o holi ag ateb, gyda'r Aelodau yn cydnabod nifer o agweddau cadarnhaol y prosiect ond mynegwyd pryderon am: dewis y contractwr / is-gontractwr ac a ystyriwyd triniaeth y gweithlu; esboniad o'r cytundeb adlesu; colli'r parcio i geir o faes parcio Ffordd Lansdowne yn ystod yr wythnos; parcio i gontractwyr (safle'r hen Neuadd Farchnad); colli Cae'r Eisteddfod; cymalau cosb os bydd y prosiect yn rhedeg yn hwyr / mynd dros y gyllideb; yr effaith posibl ar y defnydd yn y dyfodol yn dilyn ad-drefnu Llywodraeth Leol; y posibilrwydd o wasanaeth parcio a theithio o'r swyddfa newydd i Barc Eirias ar gyfer digwyddiadau o bwys; pam bu'n rhaid cynnwys tai ar safle'r rhandy (dichonoldeb); yr amserlen ar gyfer rhyddhau / datblygu Ffordd Dinerth.

Fe nodwyd bydd fideo a delweddau o'r adeilad newydd ar gael mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Diolchwyd y Cadeirydd i'r gwsteion am fod yn bresennol a gadawsant y cyfarfod.

**237/15 Cofnodion:**

*Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 27<sup>ain</sup> Hydref 2015 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.*

**238/15 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:**

**a. Cofnod 213/15 – Arolwg Parcio:**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, copi o ymateb y Gweithgor ar yr ymgynghoriad diweddar.

*Penderfynwyd derbyn a nodi'r ymateb a diolch i aelodau'r Gweithgor.*

**b. Cofnod 214/15(b) – Tafluniad TAPE:**

Fe nodwyd bod y tafluniad i gael ei arddangos ar adeilad Peacocks o lawr uchaf 'The Station' o 4pm, dydd Gwener 27<sup>ain</sup> Tachwedd..

**239/15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:**

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC i'w ystyried:

**a. Rheoliad Traffig Dros Dro** – Ffordd Abergele, Ffordd yr Orsaf a Ffordd Coetir y Dwyrain a'r Gorllewin ar 2<sup>il</sup> Rhagfyr 2015 (digwyddiad Nadoligaidd)

**b.** Llythyr oddi wrth ERF yn cynnig un dunnell o halen craig oddi wrth GBSC i bob cyngor tref a chymuned i'w dosbarthu ym misoedd y gaeaf.

Cafwyd trafodaeth fer ar y cynnig a mynegwyd pryder am ei storio, y risgiau o'i weinyddu â llaw a chostau cysylltiedig eraill e.e. penodi contractwr neu hyfforddi a goruchwylio gwirfoddolwyr i'w dosbarthu. Y teimlad oedd y byddai hyn yn fwy addas i rai o'r pentrefi gwledig nad ydynt ar lwybrau graeanu rheolaidd.

*Penderfynwyd ateb trwy ddweud nad yw'r Cyngor eisiau derbyn y cynnig eleni. Fe benderfynwyd ymhellach i ofyn am fapiau yn dangos y llwybrau graeanu presennol, i'w dosbarthu i bob aelod.*

**c. Consesiwn Parcio'r Nadolig:**

Fe nodwyd na fydd CBSC yn cynnig parcio di-dâl ar ôl 3pm yn eu meysydd parcio eleni a gofynnwyd i'r aelodau ystyried a hoffent barhau i gefnogi parcio di-dâl ar Sadyrnau (cyllideb o £1,700). Fe nodwyd na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o arolygon y Nadoligau blaenorol nac oddi wrth grwpiau Masnachwyr bod yna unrhyw fudd ar fasnach / ymwelwyr trwy gynnig parcio di-dâl.

*Penderfynwyd argymhell y Cyngor Tref i ddilyn arweiniad CBSC ac nad yw'n ad-dalu CBSC am gynnig unrhyw barcio di-dâl Nadolig eleni.*

#### **ch. Cyllideb Offer Chwarae 2015/16:**

Fe nodwyd y gofynnwyd am ddiweddariad am y cynlluniau gwario ar offer chwarae 2015/16. Roedd hyn yn dilyn y wybodaeth a ddaeth i law bod dau o'r swyddogion a fu'n gweithio ar y cais am offer newydd i faes chwarae Tan y Lan wedi gadael yr Awdurdod. Ni dderbyniwyd ateb hyd yn hyn.

Fe nodwyd ymhellach bod y Cynghorydd Parry yn chwilio am gyllid ar gyfer trogylch newydd sy'n cyd-fynd â gofynion DDA ar gyfer maes chwarae Parc Rhos. Mynegwyd pryder bydd angen pafin newydd i'r trogylch hefyd (megis Queens Park, Llandudno) ond roedd yr aelodau yn cydnabod yr angen i ystyried anghenion plant efo gwahanol fedrau.

*Penderfynwyd gofyn i'r Clerc holi am leoliad arfaethedig yr offer newydd ac unrhyw anghenion ar gyfer arwyneb caled ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn y man.*

#### **d. Prosiect Lan y Môr:**

Cyflwynodd y Clerc diweddariad ysgrifenedig byr gan Swyddog y Prosiect

*Penderfynwyd derbyn y diweddariad byr a'i nodi.*

#### **dd. Ymgynghoriad ar Deithio Actif Cymru:**

*Penderfynwyd gofyn i'r aelodau cyflwyno ymatebion unigol yn seiliedig ar eu gwybodaeth o'u hardal / ward eu hunain (gan ddefnyddio'r map / gwybodaeth sydd ar gael ar wefan CBSC).*

#### **240/15 Traffordd yr A55:**

*Penderfynwyd gohirio unrhyw adroddiad gan y Cynghorydd S. Roy am ei chyfarfod(ydd) diweddar ynglŷn â'r gwaith ar yr A55 tan y cyfarfod nesaf.*

#### **241/15 Arweinlyfr Llwybrau Cerdded y Cerddwyr:**

Cyflwynodd y Clerc copi o'r arweinlyfr a baratowyd gan Glwb y Cerddwyr ar gyfer cynghorau tref a chymuned, er gwybodaeth.

*Penderfynwyd derbyn a nodi'r arweinlyfr gyda diddordeb.*

#### **242/15 Un Llais Cymru:**

Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried, cyfarwyddiadau drafft ar randiroedd a phrosiectau tyfu cymunedol a gofynnwyd i'r aelodau ystyried yr angen i gynrychiolydd fynychu gweithdy ym Mae Colwyn ar 2<sup>il</sup> Rhagfyr. Fe nodwyd bod y cyfarwyddiadau yn cynnwys dros 140 o dudalennau. Am nad yw'r Cyngor yn ymwybodol o un rhyw alw heb ei gyflawni nac unrhyw geisiadau neu ddatganiad o ddiddordeb mewn rhandiroedd na gerddi cymunedol,

*Penderfynwyd derbyn y cyfarwyddiadau drafft a'i nodi.*

**243/15 Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd:**

Cyflwynodd y Clerc rhybudd o'r ymgynghoriad presennol ar flaenoriaethau plismona.

*Penderfynwyd derbyn yr ymgynghoriad a'i nodi.*

**244/15 Pleidleisiau i Ferched:**

Fe nodwyd bod copi o'r gyfrol ar gael i'w fenthyg gan y Clerc (ar hyn o bryd gyda Chynghorydd Mrs Griffiths) a gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais i osod 'plac glas' ar hen dŷ Mrs Mildred Spencer, yn Ffordd Rhos, Llandrillo yn Rhos.

*Penderfynwyd ysgrifennu at Mrs Lawson Reay i ddiolch iddi am y copi o'i llyfr a dweud nad oes gan y Cyngor Tref unrhyw wrthwynebiad i blac glas cael ei osod ar hen dŷ Mrs Mildred Spencer, ond rhaid cael caniatâd y perchennog presennol yn y lle cyntaf.*

**245/15 Gohebiaeth Arall:**

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

- a. Cofnodion cyfarfod Grŵp Mynediad Conwy a gynhaliwyd ar 16<sup>eg</sup> Mehefin 2015.
- b. Cofnodion cyfarfod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn (y Dwyrain) a gynhaliwyd ar 11.11.2015.

**246/15 Cynllunio:**

- a. Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan GBSC i'w ystyried.

*Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y gwelir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.*

- b. *Penderfynwyd derbyn a nodi'r copi o Benderfyniadau Cynllunio a roddwyd gan GBSC am y cyfnod 26/10/15 hyd at 8/11/15.*

**247/15 Ceisiadau am Drwyddedau:**

Cyflwynodd y Clerc manylion am unrhyw geisiadau am drwyddedau a gofnodwyd gan GBSC am y cyfnod 19/10/15 hyd at 6/11/15 er gwybodaeth.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.35 pm

..... Cadeirydd